**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18 Mawrth 2013**

**ALLDRO AMCANOL 2012-2013**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw darparu i'r Aelodau yr alldro amcanol amcangyfrifiedig am flwyddyn ariannol 2012-2013.

## Cyflwyniad

2 Mae gwariant o'i gymharu â'r gyllideb yn cael ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau disgwyliedig cyn gynted ag y bônt yn digwydd, a hynny er mwyn gallu gosod mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Yr arwyddion cyfredol yw y bydd £31,787 o danwariant. Mae'r dadansoddiad manwl yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariannau gydag arwydd minws (-).

3 Mae'r tanwariant amcangyfrifiedig yn fychan o'i gymharu â chyllideb o £32 miliwn. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r union wariant hyd at ddiwedd Chwefror, ac mae'n amcangyfrif y gwariant am fis olaf y flwyddyn. Mae hefyd yn cynnwys croniadau posibl sydd wedi digwydd ond na ellir eu talu tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Aelodau ym mis Rhagfyr yn amcangyfrif y byddai'r tanwariant tua £363k gyda £502k ychwanegol yn cael ei neilltuo i gronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, oherwydd rhai materion yn ymwneud â'r Rhaglen Gyfalaf bu angen dyrannu arian refeniw tuag at ffioedd proffesiynol oherwydd prosiectau cyfalaf. Bydd adroddiad arall ar

yr agenda yn trafod y materion hyn ymhellach. Mae'r dyraniad hwn yn golygu bod y tanwariant yn ystod y flwyddyn yn llawer is ac nad yw'r £300k a oedd i gael ei drosglwyddo i 'Gronfa ar gyfer ôl-gyfraniadau Pensiwn y System RDS' bellach yn bosibl ac y bydd yn rhaid ymorol am unrhyw ymrwymiadau o'r Gronfa Gyffredinol. Felly, dylid neilltuo unrhyw danwariant yn ystod y flwyddyn i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer y costau hyn.

## Amrywiadau i'r Gyllideb

### Costau Gweithwyr

4 Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau, ac mae arwyddion y bydd tanwariant net ar gyflogau eleni.

5 O fewn y gyllideb ar gyfer Diffoddwyr Tân–Amser Cyflawn, mae targed o £500k o arbedion y cytunwyd arno gan yr Aelodau yn ystod y broses o osod y gyllideb ac i'w sicrhau drwy gyflwyno system gylchrestru newydd. Roedd y ddau adroddiad alldro blaenorol wedi amcangyfrif na ellid cyrraedd y targed arbedion ryw lawer (£481k ac yna £211k). Gellir adrodd erbyn hyn fod nifer y staff amser cyflawn sydd wedi ymadael neu a fydd yn ymadael â'r gwasanaeth wedi cynyddu a bod hyn wedi lleihau i £65k.

6 Mae'r tanwariant amcangyfrifiedig ar ddiffoddwyr tân y system RDS wedi cynyddu ers yr adroddiad diwethaf, sef o £435k i £529. Mae'r cynnydd yn y tanwariant oherwydd gostyngiad yn y ffioedd hyfforddi a digwyddiadau oherwydd bod recriwtio wedi ei rewi. Nid yw'r gostyngiad ar gostau diffoddwyr tân y system RDS wedi cael effaith ar wasanaethau rheng flaen oherwydd bod gofal ar rai gorsafoedd y system RDS yn cael ei ddarparu gan ddiffoddwyr tân o Gronfa Adnoddau'r Ochr Weithredol (sefydlwyd y gronfa er mwyn darparu gofal pan fo absenoldebau, gyda'r gronfa'n cynnwys swyddi na chafodd rôl ar y gylchrestr; gwirfoddol yw aelodaeth o'r gronfa).

7 Gellir priodoli'r tanwariant ar Staff Cefnogol i ailstrwythuriad a arweiniodd at swyddi gwag yn cael eu llenwi'n hwyrach na'r amcangyfrif, a nifer y swyddi a oedd heb gael eu llenwi ar y pryd. Gyda'r angen i wneud arbedion yn y blynyddoedd a ddaw, disgwylir y caiff nifer o'r swyddi gwag hyn eu dileu.

8 Mae’r tanwariant ar gyllideb y Prif Swyddogion yn ymwneud â swydd wag Prif Swyddog Tân Cynorthwyol sydd heb gael ei llenwi eto yn dilyn ymddeoliad deiliad blaenorol y swydd.

9 Bydd y pennawd Amrywiol yn y gyllideb yn cael ei orwario yn bennaf oherwydd bod cynnydd yng nghyfraniad yswiriant gwladol y cyflogwyr yn ddyledus ar ddefnyddwyr ceir prydles yn dilyn adolygiad gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

10 Mae’r gorwariant ar bensiynau Llywodraeth Leol oherwydd y taliad a wnaed gan y cyflogwr i’r gronfa bensiynau i ymorol am gostau gweithwyr sydd wedi ymddeol yn gynnar o ganlyniad i ddileu swyddi.

**Safleoedd**

11 Ar gyllideb y safleoedd, y prif rannau o orwariant fydd costau ynni ac Adrethi Annomestig Cenedlaethol (*NNDR*). Mae costau ynni wedi codi’n sylweddol, ac er bod cynlluniau yn eu lle i ddefnyddio llai, mae’r cynnydd yng nghost unedau yn fwy na’r arbedion a geir trwy ddefnyddio llai. Gellir priodoli’r tanwariant ar Ardrethi Annomestig yn bennaf i’r cynnydd yn yr adrethi sy’n daladwy ar gyfer Llangefni yn dilyn ailwerthuso’r safle wedi’r gwaith adnewyddu diweddar.

12 Mae’r tanwariant ar Rent oherwydd prynu’r Pencadlys yn ddiweddar, ac mae hyn wedi arwain at arbedion ar rent, ond costau ychwanegol o dan Gyllido Cyfalaf. Mae’r sefyllfa wirioneddol yn arbediad blynyddol i’r Awdurdod, a’r adeilad ym meddiant yr Awdurdod.

13 Mae’r gorwariant ar gostau Atgyweirio a Chynnal a Chadw oherwydd y gwaith mewn perthynas â’r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a archebwyd ar gyfer adeilad y Pencadlys ond na chyllidebwyd ar ei gyfer.

**Cludiant**

14 Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod gorwariant o £5k yn y gyllideb Cludiant. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yng nghostau tanwydd, a gwrthbwyswyd yn erbyn hyn gan arbedion yn y costau Atgyweirio a Chynnal a Chadw.

**Cyflenwadau**

15 Bydd gorwariant ar gyfarpar yr ochr weithredol, yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn costau sy'n gysylltiedig â chontractau offer hydrolig a oedd yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol.

16 Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd tanwariant ar gostau Cyfathrebu oherwydd oedi wrth gyflwyno'r gwaith datblygu sydd wedi arwain at arbediad ar gostau Firelink a rhenti llinellau yn y flwyddyn gyfredol.

17 Mae'r gorwariant ar Gostau Cyfrifiaduron oherwydd y penderfyniad i gael offer cyfrifiadurol ychwanegol yn arbennig ar gyfer staff y rheng flaen. Bydd yr offer hwn yn gymorth i ddarparu gwasanaethau ac yn arbed costau ar ad-daliadau cyfalaf yn y blynyddoedd i ddod.

18 Bu gostyngiad yn y premiymau yswiriant yn dilyn proses dendro gystadleuol.

19 Mae'r gorwariant ar danysgrifiadau oherwydd y cynnydd yng nghost aelodaeth o Gymdeithas y Prif Swyddogion Tân nad oedd yn hysbys ar adeg gosod y gyllideb wreiddiol.

20 Mae'r ffioedd Archwilio wedi cynyddu £19k oherwydd gwaith ychwanegol a archebwyd yn dilyn penderfyniad y Panel Gweithredol ym mis Chwefror.

**Gwasanaethau Cefnogol**

21 Bydd y gorwariant amcangyfrifiedig ar Reoli Cyfleusterau yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan gynnydd mewn incwm o ffioedd cyfalaf, a dangosir hyn yn yr adran ar incwm ar dudalen olaf yr atodiad. Fodd bynnag, ni ellir cael yr holl gostau ychwanegol yn ôl oherwydd llithriant ar y rhaglen gyfalaf, gan arwain at sefyllfa lle mae'r staff cyfleusterau'n gweithio mwy ar y rhaglen gynnal a chadw flynyddol na ellir ailgodi tâl amdanynt.

22 Mae'r costau sy'n gysylltiedig â chyngor cyfreithiol ym maes cyflogaeth yn uwch na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y bu angen cael cyngor ar nifer o faterion a gododd yn ystod y flwyddyn.

## Cyllido Cyfalaf

23 Amcangyfrifir bod y costau dyledion a gysylltir â'r rhaglen gyfalaf yn llai na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y cyfraddau llog isel a'r oedi ar rai prosiectau mawr megis gorsafoedd tân Wrecsam, Tywyn a Nefyn. Cynhwyswyd llinell ychwanegol dan y pennawd hwn i ddangos y ffioedd am brynu'r pencadlys fel y nodir ym mharagraff 12.

## Incwm

24 Mae'r incwm ar Werthu yn ymwneud yn bennaf â'r incwm a geir o gael gwared ar nifer o gerbydau nad oes mo'u hangen mwyach. Mae'n anodd gweld mewn unrhyw flwyddyn faint a dderbynnir gan ei bod yn dibynnu pa geir sy'n mynd yn ystod y flwyddyn a'r swm a geir ar adeg arwerthiant.

25 Mae'r incwm am Alwadau Gwasanaeth Arbennig yn llai na'r gyllideb oherwydd gostyngiad yn nifer y digwyddiadau y mae'r Awdurdod yn anfonebu amdanynt. Hefyd, bu gostyngiad yn yr incwm a enillwyd trwy gyrsiau hyfforddi allanol, oherwydd penderfynwyd mai defnydd mwy effeithiol o'r adnoddau yw cyflwyno'r neges diogelwch tân cymunedol i'r gymuned fusnes.

26 Mae'r llog ar falansau hefyd yn is na'r amcangyfrif gwreiddiol oherwydd bod cyfraddau llog isel yn gyffredin. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad cyfatebol yn y llog i'w dalu ar fenthyciadau yn gwneud mwy nag iawn am hynny.

## Cyfraniad i Gronfeydd wrth gefn

27 Yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 19 Tachwedd 2012, cytunwyd y dylai'r swyddogion fwrw ymlaen i brynu'r orsaf ambiwlans yng Nglannau Dyfrdwy sy'n sownd i'r orsaf dân. Y dewis mwyaf cost-effeithiol o ran gwneud gwaith ailddatblygu mawr i'r safle yw petai'r tir a'r adeiladau, sy'n eiddo i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar hyn o bryd, yn dod i feddiant yr Awdurdod Tân. Cytunodd yr Aelodau y gellid ariannu'r gost o brynu o'r tanwariant refeniw yn 2012/13, felly neilltuwyd £127k i ariannu'r pryniant.

28 Yn yr adroddiad alldro blaenorol cytunodd yr Aelodau i neilltuo £300k i wrthbwyso'r costau i'r Awdurdod o ôl-ddyddio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr i'r diffoddwyr tân hynny o'r system RDS a oedd yn gweithio rhwng 1 Gorffennaf 2000 a 5 Ebrill 2006. Fodd bynnag, ni fydd modd gwneud hyn bellach a bydd angen cwrdd ag unrhyw ymrwymiadau o'r Gronfa Gyffredinol. Dylid neilltuo'r tanwariant amcangyfrifiedig, sef £32k, i'r Gronfa Gyffredinol i wrthbwyso'r costau hyn.

## Argymhellion

29 Bod yr Aelodau'n nodi'r tanwariant amcangyfrifiedig ac yn cytuno mewn egwyddor i neilltuo arian i gronfeydd fel y nodir uchod.